Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF

Enw'r llys

Rhif yr hawliad

N180

# Holiadur Cyfarwyddiadau

## (Trac Hawliadau Bychain)

**I'w lenwi gan, neu ar ran**

Sef yr

- [ ] Hawlydd
- [ ] Diffynnydd
- [ ] Hawlydd Rhan 20

- [ ] Cyntaf
- [ ] Ail
- [ ] Trydydd
- [ ] 

yn yr hawliad hwn.

Dylech nodi'r dyddiad erbyn pryd rhaid dychwelyd yr holiadur hwn ac enw'r llys y dylid ei ddychwelyd iddo, oherwydd gall fod yn llys gwahanol i'r un lle cychwynnwyd yr achos.

Os ydych eisoes wedi setlo'r hawliad hwn (neu os byddwch yn ei setlo ar ddyddiad yn y dyfodol) ac nad oes arnoch angen iddo gael ei wrando neu ei benderfynu, rhaid i chi roi gwybod i'r llys ar unwaith.


©Hawlfraint y Goron 2024

## A. Setliad/Cyfryngu

Dan y Rheolau Trefniadaeth Sifil dylai'r partïon wneud eu gorau glas i setlo'u hachos. Ar yr adeg hon, dylech o hyd fod yn meddwl a oes modd i chi a'r parti(partïon) arall/eraill setlo'ch anghydfod heb gael gwrandawiad.

Gallwch geisio setlo'r hawliad naill ai drwy gynnal trafodaeth uniongyrchol gyda'r parti arall neu drwy gyfryngu. Os byddwch yn setlo'r hawliad, gall partïon gael cytundeb rhwymol a ellir ei orfodi os na chydymffurfir â thelerau'r cytundeb.

Ffordd o ddatrys anghydfod heb orfod mynd i wrandawiad llys yw cyfryngu, lle mae'r partïon yn cael cymorth i ddatrys eu anghydfod, gyda chymorth cyfryngwr diduedd. Fel arfer, caiff cyfryngu ei wneud dros y ffôn mewn apwyntiadau un awr.

Fel rhan o'ch cais, **bydd GLlTEF yn darparu Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain cyfrinachol ac am ddim.** Ar gyfer pob hawliad am arian sydd werth £10,000 neu lai, mae'n rhaid i'r partïon fynychu apwyntiad cyfryngu wedi'i drefnu gan y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain.

Os na fyddwch yn mynychu'r apwyntiad cyfryngu, yna byddwch yn cael eich cosbi. Gallai hyn gynnwys y Barnwr yn gorchymyn eich bod yn talu costau, neu'r Barnwr yn gwneud dyfarniad o blaid y parti arall/partïon eraill yn awtomatig.

Os bydd yr hawliad yn cael ei setlo ar y cam hwn, gall y partïon osgoi ffioedd llys pellach, costau ac amser sydd ynghlwm â pharatoi a mynychu gwrandawiad. Os na allwch ddod i gytundeb gyda'r parti arall yn yr apwyntiad cyfryngu, bydd yr hawliad yn parhau i wrandawiad hawliadau bychain.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am gyfryngu yn www.gov.uk.

## B. Eich manylion cyswllt

Eich enw llawn

| |
|---|
| |

Cyfeiriad ar gyfer cyflwyno

Llinell gyntaf y cyfeiriad

| |
|---|
| |

Ail linell y cyfeiriad

| |
|---|
| |

Tref neu ddinas

| |
|---|
| |

Sir (dewisol)

Cod post

Eich rhif ffôn

Eich rhif ffôn symudol

Eich cyfeiriad e-bost

## C. Trac

**C1** Ydych chi'n cytuno mai'r trac hawliadau bychain yw'r trac priodol ar gyfer yr achos hwn?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os Nac ydw, dywedwch pam, a nodwch y trac y credwch y dylid ei ddyrannu iddo

## D. Addasrwydd i benderfynu heb wrandawiad

**D1** A ydych o'r farn bod yr hawliad hwn yn addas i'w benderfynu heb wrandawiad, h.y. gan farnwr yn darllen ac yn ystyried papurau'r achos, datganiadau tystion a dogfennau eraill a gaiff eu ffeilio gan y partïon, gwneud penderfyniad, a rhoi nodyn o resymau dros y penderfyniad hwnnw?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os 'Nac ydw', nodwch pam.

**Trac**

Y trac hawliadau bychain – yn gyffredinol ar gyfer hawliadau gwerth is a llai cymhleth, gyda gwerth o dan £10,000. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ddarllen taflen EX306 'Y trac hawliadau bychain yn y llysoedd sifil'. Gallwch gael y daflen hon ar-lein yn [https://www.gov.uk/government/collections/court-and-tribunal-forms](https://www.gov.uk/government/collections/court-and-tribunal-forms)

Gall y llys benderfynu'r hawliad hwn heb wrandawiad:
(a) os yw'r holl bartïon yn cytuno; neu
(b) pan fo'r 'Cynllun peilot ar gyfer penderfynu ar hawliadau bychain ar sail y papurau' yn gymwys, hyd yn oed os nad yw'r partïon yn cytuno. I gael mwy o wybodaeth am y llysoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot a'r achosion sydd yn berthnasol a'r rhai nad ydynt yn berthnasol iddynt, gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 51ZC i CPR 51.

Mae'r rhesymau perthnasol yn cynnwys pan fydd yna anghydfodau ffeithiol a bod angen i'r barnwr glywed gan dystion yn uniongyrchol (ac os felly nodwch yr anghydfod ffeithiol a'r tystion perthnasol) neu fod y materion mor gymhleth fel bod angen eu trafod ar lafar.

# E. Ynglŷn â'r apwyntiad cyfryngu

**E1** Pa rif ffôn yr hoffech i'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain ei ddefnyddio i'ch ffonio chi ar gyfer eich apwyntiad cyfryngu?

**E2** A oes yna unrhyw ddyddiadau **yn y 3 mis nesaf** pan na fyddwch ar gael i fynychu eich apwyntiad cyfryngu?

☐ Oes

☐ Nac oes

Os 'Oes', rhestrwch y dyddiadau hyn isod

**Dyddiadau i'w hosgoi:** Dylech nodi'r dyddiadau pan na fyddwch ar gael i fynychu'r apwyntiad cyfryngu oherwydd gwyliau neu ymrwymiadau eraill. Cynhelir apwyntiadau cyfryngu rhwng dydd Llun a dydd Gwener, 9am i 5pm, ac eithrio gwyliau banc.

**E3** A fyddwch chi'n defnyddio cyfieithydd ar y pryd ar gyfer eich apwyntiad cyfryngu?

☐ Byddaf

☐ Na fyddaf

Os 'Byddaf', nodwch y math o gyfieithydd ar y pryd

**Cyfieithydd ar y Pryd:** Mewn rhai amgylchiadau bydd y llys yn trefnu ac yn talu costau cyfieithydd ar y pryd.
Os ydych angen cyfieithydd ar y pryd, dylech gysylltu â'r llys ar unwaith. Am ragor o fanylion ewch i'n gwefan www.justice.gov.uk dan 'cyfarwyddyd'.

**E4** Ydych chi'n credu eich bod yn agored i niwed mewn unrhyw ffordd neu eich bod angen unrhyw gymorth ychwanegol y mae angen i'r cyfryngwr ei ystyried?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os 'Ydw', esboniwch ym mha ffordd rydych yn agored i niwed a pha gamau, cymorth neu addasiadau yr hoffech i'r cyfryngwr eu hystyried.

**Cymorth ychwanegol:** A oes gennych chi anabledd corfforol, meddyliol neu addysgol neu gyflwr iechyd hirdymor sy'n golygu bod angen cymorth arnoch yn ystod eich achos? Gwyddwn fod pobl ag anableddau weithiau angen cymorth i'w cadw'n ddiogel neu i gael mynediad at ein gwasanaethau.

# F. Ynglŷn â'r gwrandawiad

## Lleoliad y gwrandawiad

**F1** Ym mha ganolfan wrandawiadau'r Llys Sirol y byddai'n well gennych i'r gwrandawiad hawliadau bychain gael ei gynnal a pham?

## Tystiolaeth arbenigol

**F2** A ydych yn gofyn am ganiatâd y llys i ddefnyddio tystiolaeth ysgrifenedig arbenigwr?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os 'Ydw', nodwch pam a rhowch enw'r arbenigwr (os yw'n hysbys) a'r maes arbenigedd a'r gost debygol os caiff ei benodi.

## Tystion

**F3** Faint o dystion, gan gynnwys chi eich hun, fydd yn rhoi tystiolaeth ar eich rhan yn y gwrandawiad?

**Lleoliad:** Os yw eich hawliad yn hawliad am arian dynodedig, bydd yr achos fel arfer yn cael ei drosglwyddo i'r llys a ffafrir gan yr hawlwyr neu lys lleol y diffynyddion fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y gallwn drosglwyddo'r achos i'r llys hwn. I gael rhagor o wybodaeth, gweler CPR - Rhannau 3, 12, 13, 14 a 26.

**Tystiolaeth arbenigol:** Rhaid i'r llys roi caniatâd i chi ddefnyddio tyst arbenigol. Bydd eich hysbysiad dyrannu yn dweud wrthych a oes caniatâd wedi'i roi. Noder mai'r terfyn uchaf ar gyfer ffioedd arbenigwyr y gellir eu hadennill yw £750. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ddarllen taflen EX306 'Y trac hawliadau bychain yn y llysoedd sifil'.

Gallwch gael y daflen hon ar-lein yn https://www.gov.uk/government/collections/court-and-tribunal-forms

**Tystion:** Efallai y gofynnir i dystion roi tystiolaeth gan y naill barti neu'r llall. Mae angen i chi ddweud wrth y llys os ydych yn bwriadu galw tyst. Dylai treuliau tystion ar gyfer llety, teithio a cholli enillion gael eu talu gan y parti sy'n gofyn am iddynt fod yn bresennol. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ddarllen EX342 'Dod i wrandawiad llys'.
Gallwch gael y daflen hon ar-lein yn https://www.gov.uk/government/collections/court-and-tribunal-forms

### Gwrandawiad

**F4** A oes yna unrhyw ddyddiau yn y naw mis nesaf pryd na fydd modd i chi, i arbenigwr neu dyst, fod yn bresennol yn y llys ar gyfer y gwrandawiad?

☐ Oes

☐ Nac oes

Os 'Oes', rhowch fanylion yn y tabl isod

| | Dyddiadau nad ydynt ar gael |
|---|---|
| Chi eich hun | |
| Arbenigwr | |
| Tyst hanfodol arall | |

**Dyddiadau gwrandawiad i'w hosgoi:** Dylech nodi'r dyddiadau pan na fydd modd i chi, eich arbenigwr neu dyst hanfodol fynychu'r llys oherwydd gwyliau neu ymrwymiadau eraill.

**F5** A fyddwch chi'n defnyddio cyfieithydd ar y pryd yn y gwrandawiad un ai ar eich cyfer chi neu dyst?

☐ Byddaf

☐ Na fyddaf

Os 'Byddaf', nodwch y math o gyfieithydd ar y pryd y byddwch yn ei ddefnyddio

| |
|---|
| |

**Cyfieithwyr ar y pryd:** Mewn rhai amgylchiadau, bydd y llys yn trefnu ac yn talu costau cyfieithydd ar y pryd. Os ydych angen cyfieithydd, dylech gysylltu â'r llys ar unwaith. Am ragor o fanylion ewch i'n gwefan www.justice.gov.uk dan 'cyfarwyddyd'.

**F6** A ydych yn credu eich bod chi, neu dyst a fydd yn rhoi tystiolaeth ar eich rhan, yn agored i niwed mewn unrhyw ffordd y mae angen i'r llys ei ystyried?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os 'Ydw', esboniwch ym mha ffordd yr ydych chi neu'r tyst yn agored i niwed a pha gamau, cymorth neu addasiadau yr hoffech i'r llys a'r barnwr eu hystyried.

| |
|---|
| |

# G. Gwybodaeth arall

**G1** A ydych wedi cael eich cynghori am eich hawl i roi tystiolaeth un ai yn Gymraeg neu yn Saesneg?

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

**G2** A fyddwch chi a'ch tyst(ion) yn dymuno siarad Cymraeg neu Saesneg yn y llys, neu a ddefnyddir y ddwy iaith?

- [ ] Cymraeg
- [ ] Saesneg
- [ ] Y ddwy iaith

**G3** A fydd y dogfennau a gyflwynir i'r llys yn ystod yr achos yn Gymraeg neu'n Saesneg, neu a fydd rhai yn Gymraeg a rhai yn Saesneg?

- [ ] Cymraeg
- [ ] Saesneg
- [ ] Y ddwy iaith

## Llofnod

Rhaid i chi lofnodi'r ffurflen hon

- [ ] Cynrychiolydd cyfreithiol y/yr

| | |
|---|---|
| [ ] Hawlydd | [ ] Cyntaf |
| [ ] Diffynnydd | [ ] Ail |
| [ ] Hawlydd Rhan 20 | [ ] Trydydd |
| | [ ] |

**Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon,** dychwelwch hi i'r llys yn y cyfeiriad a ddangosir ar y ffurflen **N149A** - Rhybudd dyrannu arfaethedig i'r Trac Hawliadau Bychain.

Rhaid i chi hefyd anfon copi o'r ffurflen hon (**N180** Holiadur Cyfarwyddiadau) at bob un o'r partïon eraill yn yr achos hwn.

Darllenwch fwy am sut mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF yn defnyddio'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei rhoi iddynt wrth lenwi ffurflen: https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter.cy